Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 7 Ionawr 2019 am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

50. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gavin Harris.

51. DATGAN BUDDIANNAU
Gwnaeth y Cynghorydd Ian Lewney ddatgan budd yng nghais

52. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018 yn gywir.

53. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

54. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2018/0641 – 39 Well Street, Ruthin – Change of use from A1 Retail to A3 Micro Pub – Withdrawn
02/2018/0984 – 40 Rhos Street, Ruthin – Variation of condition no. 2 of planning permission 02/2017/0606 to allow amended design - Granted
02/2018/1171 – Llawr cyntaf ac ail lawr uwchben Cavendish Ikin a Moccoco, 1-2 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun – Manylion storfa biniau a gyflwynwyd yn unol ag amod 2 caniatâd cynllunio 02/2013/0780/PF – Cymeradwywyd
02/2018/1008 – Gorsaf Wasanaethu'r Dyffryn, Ffordd Dinbych, Rhuthun - Adeiladu estyniad i'r siop gydag addasiadau mewnol, adleoli'r olchfa geir ac adeiladu adeilad amgáu'r olchfa geir - Caniatawyd
02/2018/1127 – Llys Cerdd, Ffordd Llanfair, Rhuthun - Estyniad deulawr arfaethedig ar ochr yr annedd sy'n bodoli eisoes a gwaith cysylltiedig – Caniatawyd.

55. CEISIADAU CYNLLUNIO
Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn, yn ddarostyngedig i'r sylwadau isod.*

02/2018/1064 – Llys Gwyn, Bryn Goodman, Rhuthun
Dymchwel y garej sy'n bodoli, adeiladu estyniadau i'r annedd a llunio mynedfa newydd i gerbydau.
02/2018/1199 – Tir ger Y Clwystai, Rhodfa'r Eglwys, Rhuthun
Adeiladu un annedd, garej ar wahân ac addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau.
02/2018/1206 – 9 Cae Castan, Rhuthun
Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd (cais wedi'i ailgyflwyno)

PENDERFYNWYD*: bod gwrthwynebiadau i'r cais cynllunio a ganlyn, fel yr amlinellir isod.*
13/2018/1149 – Bron Parc, Galltegfa, Rhuthun
Adeiladu uned cynhyrchu wyau rhydd yn cynnwys seilos a gwaith cysylltiedig, yn cynnwys mynedfa.
Er bod yr aelodau'n gwerthfawrogi'r angen i arallgyfeirio yn y diwydiant amaeth, teimlir bod maint a graddfa'r cynlluniau arfaethedig yn ormodol ar gyfer y safle, a bod y datblygiad yn mynd i gael effaith amgylcheddol ar yr ardal gyfagos, o ran llygredd tebygol ac arogleuon carthion. Byddai hefyd yn ychwanegu at y traffig trwm ar y ffordd o Rhuthun am Glawddnewydd, yn enwedig yn y rhan o'r gylchfan at Eglwys Sant Mwrog sydd eisoes yn wynebu problemau.

56. GORCHYMYN ARFAETHEDIG ATAL PARCIO, HEN LÔN PARCWR

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried Gorchymyn Atal Parcio arfaethedig yn Hen Lôn Parcwr, Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn arfaethedig ac i hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.*

57. CYFLEOEDD HYFFORDDIANT

Darparwyd gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddiant wedi'u trefnu gan Gymorth Cynllunio Cymru i'r aelodau.
PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth.*

58. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 11 Chwefror 2019 am 6:45pm.*